Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd
# Heol Woodland
# Castell Nedd
# SA11 3AL

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn ysgol benodedig Gymraeg sy’n gwasanaethu ardal Castell-nedd yn awdurdod Castell Nedd Port Talbot. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol yn yr ysgol ar ddechrau cyfnod allweddol 2.

Mae 312 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, a 72 o blant oed meithrin rhan amser. Addysgir y disgyblion mewn 8 dosbarth yn y Cyfnod Sylfaen a 6 dosbarth yng nghyfnod allweddol 2 a chyflogir 14 athro, gan gynnwys y pennaeth. Daw 72% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Saesneg fel prif iaith, felly dim ond 28% sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd adref. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd yn dod o gefndir ethnig ac mae tua 11% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sydd gryn dipyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 11% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol a does dim un disgybl â datganiad o anghenion addysgol.

Penodwyd y pennaeth ym mis Medi 2006 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Tachwedd 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn 2015-2016 yw £2,896. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot yw £7,039 a'r lleiafswm yw £2,718. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Castell-nedd yn safle 61 o'r 65 ysgol gynradd yng Nghastell Nedd Port Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- medrau llafar bron bob un disgybl yn y Gymraeg yn datblygu i fod o safon uchel iawn
- llawer yn trosglwyddo eu medrau rhifedd yn effeithiol i bynciau ar draws y cwricwlwm
- bron pob disgybl yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd, ac yn gwrtais iawn tuag at oedolion ac ymwelwyr
- ethos a bywyd yr ysgol yn gadarn Gymreig a Chymraeg, ac yn cael eu cyfoethogi gan weithgareddau sy'n deillio o'r siarter iaith
- ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol gydag ambell elfen o ragoriaeth
- gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac maent yn cyflwyno gwybodaeth a medrau newydd yn glir, gan fodelu safonau iaith uchel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- strwythur rheoli'r ysgol yn dynn ac effeithiol, ac wedi ei sefydlu'n gadarn
- holl staff yr ysgol yn rhannu cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol yr ysgol, gyda thimau yn gyfrifol am flaenoriaethau penodol
- mae athrawon profiadol yn mentora athrawon newydd yn effeithiol iawn
- llywodraethwyr yn defnyddio data perfformiad a thystiolaeth gyfredol yn dda i herio ei gilydd ac arweinyddiaeth yr ysgol yn strategol
- cysylltiadau da rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill yn y clwstwr lleol, sy'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda
- y drefn o strwythuro'r ysgol yn unedau wedi creu triawdau o athrawon sy'n rhannu arfer â'i gilydd yn llwyddiannus

## Argymhellion

A1 Parhau i godi lefel presenoldeb y disgyblion

A2 Sicrhau bod yr ysgol yn cynllunio'n briodol er mwyn bodloni holl ofynion addysg grefyddol

A3 Darparu digon o gyfleoedd ar draws meysydd dysgu y Cyfnod Sylfaen i ddisgyblion wneud dewisiadau a gweithredu'n annibynnol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer ragorol a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau ysgol ar lefel is na'r disgwyl mewn iaith a mathemateg ac, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da iawn yn eu dysgu.

Mae medrau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus, gan ddefnyddio ystod eang o eirfa aeddfed a diddorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau. Maent yn defnyddio strategaethau addas i gynllunio ac ysgrifennu darnau o waith estynedig yn llwyddiannus. Mae llawer o ddisgyblion uwch eu gallu yn defnyddio ffurfiau cryno'r ferf yn naturiol i amrywio dechrau brawddegau ac yn defnyddio geirfa gyfoethog i wella ansawdd eu gwaith ysgrifenedig. Mae'r rhan fwyaf yn ddarllenwyr deallus sy'n defnyddio ystod o strategaethau darllen pwrpasol yn llwyddiannus i adeiladu geiriau anghyfarwydd a rhoi ystyr i'r testun.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau llafar bron bob un disgybl o safon uchel iawn. Maent yn cynnal sgyrsiau naturiol am ystod eang o destunau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gystrawennau ac ymadroddion lleol. Yn ogystal, maent yn cynnal sgyrsiau anffurfiol ac aeddfed o gwmpas yr ysgol. Mae medrau darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n fedrus. Maent yn darllen yn hyderus ac yn rhugl yn y ddwy iaith, gan newid goslef llais yn effeithiol. Mae llawer yn mwynhau darllen ac yn dewis llyfrau addas sydd o ddiddordeb iddynt. Mae'r rhan fwyaf yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu. Mae eu gwybodaeth am nodweddion a ffurfiau iaith yn gadarn. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu disgrifiad o Twm Sion Cati, hysbyseb swydd, dyddiadur a bywgraffiad Nelson Mandela yn effeithiol, gan ddefnyddio brawddegau estynedig a geirfa ddiddorol. Mae llawer yn defnyddio eu medrau llythrennedd i'r un safon mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Wrth astudio hanes, maent yn llunio cwestiynau i holi Twm Carnabwth, ysgrifennu dyddiadur merch yng nghyfnod Twm Carnabwth ac yn cofnodi canlyniadau arbrawf gwyddonol yn effeithiol. Mae bron pob un yn ysgrifennu i'r un safon yn y Gymraeg a Saesneg.

Mae medrau mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 yn datblygu'n unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf drafod rheolau adio a thynnu yn hyderus, gyda'r disgyblion mwyaf galluog yn defnyddio a chymhwyso rhifau hyd at 1,000. Maent yn datblygu dealltwriaeth gadarn o nodweddion siapau 2D a3D ac yn defnyddio unedau safonol wrth fesur. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau'n llwyddiannus i ddatrys problemau rhifedd mewn meysydd ar draws y cwricwlwm. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith ar gymharu tymheredd gwledydd y byd gyda thymheredd yng Nghastell-nedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o nodweddion mathemategol, gan gynnwys gweithdrefnau adio, tynnu, lluosi a rhannu, yn gadarn. Mae llawer yn trosglwyddo eu medrau mewn mathemateg yn effeithiol i bynciau eraill. Er enghraifft, mewn gwers hanes, maent yn datrys faint dalodd ffermwr am deithio nifer o weithiau trwy dollborth.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, nid oes tuedd amlwg mewn perfformiad disgyblion mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol ar y deilliant disgwyliedig. Fodd bynnag, ar y deilliant uwch, mae perfformiad yr ysgol yn gyson yn yr 50% uchaf mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol dros gyfnod o bedair blynedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg a Saesneg yn dangos tuedd i lawr ac mae eu perfformiad mewn mathemateg wedi bod yn y 50% uwch mewn dwy allan o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth yn gyson yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y lefelau uwch yn anghyson.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn debyg i berfformiad y gweddill ar y lefel ddisgwyliedig. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r disgyblion hyn sy'n cyrraedd y lefelau uwch.

Er bod gwahaniaeth sylweddol yn y data rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefelau disgwyliedig ac uwch yn y Gymraeg a'r Saesneg, nid yw hyn yn amlwg yn llyfrau gwaith cyfredol y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd bwyta, yfed a chadw'n iach, ac yn manteisio ar y cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol.

Mae presenoldeb yr ysgol yn amrywio dros gyfnod o amser. O ganlyniad i strategaethau effeithiol, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r canran presenoldeb wedi gwella o 93.4% i 95.6% ac mae'r ysgol wedi symud o'r 25% isaf i'r 50% uwch o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

Mae safonau ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda. Mae bron pob disgybl yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd, ac yn gwrtais iawn tuag at oedolion ac ymwelwyr. Mae ymdeimlad cryf o berthyn i gymuned hapus a chyfeillgar yn bodoli ar draws yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn cydweithio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli barn y disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent wedi arwain ar weithredu siarter iaith a chreu targedau penodol i'r ysgol.

Mae disgyblion yn cyfrannu'n helaeth at waith elusennol, drwy godi arian a chymryd rhan mewn digwyddiadau cymdeithasol yn y gymuned leol. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a medrau bywyd yn dda. Mae gan y disgyblion hŷn gyfrifoldebau bugeiliol dros y disgyblion iau ac maent yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfrifoldebau mae staff yn darparu ar eu cyfer.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgolyn effeithiol wrth gynllunio'n thematig ar sail y Fframwaith Sgiliau gan ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn cynllunio'n briodol er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion y cwricwlwm addysg grefyddol.

Mae darpariaeth yn ddatblygiadol ac yn sicrhau ystod eang o brofiadau a chyfleoedd addysgu sy'n ennyn chwilfrydedd y disgyblion. Mae athrawon yn rhoi cyfleodd da i ddisgyblion gyfrannu syniadau a gofyn cwestiynau, sy'n cyfoethogi'r cynlluniau. Mae cynllunio ar gyfer cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh ar draws y cwricwlwm yn gyrfder yn yr ysgol.

Ar ei orau, mae cynllunio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys cyfleoedd i gyfoethogi'r ddarpariaeth a meithrin medrau annibynnol y disgyblion trwy ddarparu heriau priodol. Fodd bynnag, mewn tua hanner o'r dosbarthiadau, nid yw'r disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd i wneud dewisiadau a gweithredu heb arweiniad.

Mae ystod benodol o raglenni ymyrraeth effeithiol ar draws yr ysgol, sy'n dylanwadu'n gryf ar safonau'r digyblion sydd angen cefnogaeth.

Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd eang i'r disgyblion ddysgu canu amrywiaeth o offerynnau cerddorol i safon uchel. Mae aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd ac mae'r ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau allgyrsiol sy'n cyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae darpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ar draws y cwricwlwm yn un o gryfderau'r ysgol. Mae ethos a bywyd yr ysgol yn gadarn Gymreig a Chymraeg, ac yn cael eu cyfoethogi gan weithgareddau sy'n deillio o'r siarter iaith. Er enghraifft, mae'r cymeriadau Dai Shwmae, Donna a Dydli Iaith yn annog disgyblion i chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Trwy astudio hanes lleol, gwaith beirdd ac arlunwyr o Gymru a chymryd rhan mewn digwyddiadau lleol, mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o ddatblygiad cynaliadwy yn llwyddiannus drwy weithgareddau ymarferol ar safle'r ysgol a thu hwnt, gan gynnwys casglu sbwriel yn y gymuned. Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddinasyddiaeth fyd eang yn effeithiol. Maent yn cyfrannu'n hael i elusennau lleol a chenedlaethol ac mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliannau eraill yn datblygu'n briodol.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol gydag ambell elfen o ragoriaeth. Mae athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn datblygu gwybodaeth flaenorol ac ymestyn dealltwriaeth y disgyblion. Mae staff cynorthwyol yn chwarae

rôl effeithiol wrth gefnogi'r dysgu ac mae perthynas waith lwyddiannus yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion ym mron bob dosbarth. Mae gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac maent yn cyflwyno gwybodaeth a medrau newydd yn glir, gan fodelu safonau iaith uchel. Yn y lleiafrif o dosbarthiadau lle gwelir agweddau o ragoriaeth, mae tasgau yn heriol, wedi eu teilwra'n effeithiol i anghenion grwpiau penodol, a'r disgwyliadau yn gyson uchel. Mae cyflymdra'r addysgu yn sicrhau bod bron bob disgybl yn gyson weithredol yn ystod y wers.

Defnyddia bron bob athro ystod addas o strategaethau asesu ar gyfer dysgu fel rhan annatod o'u gwersi er mwyn hybu dealltwriaeth y disgyblion. Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac mae sylwadau athrawon yn egluro beth sydd angen ei wneud er mwyn datblygu ymhellach. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn cael cyfleoedd da i ymateb i sylwadau'r athro. Maent yn cael amser i ailddrafftio eu gwaith yn drylwyr er mwyn gwella ansawdd darnau ysgrifenedig ac ymestyn cyrhaeddiad.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn safoni gwaith yn gyson ac, o ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o ddisgwyliadau lefelau. Mae dulliau cymedroli yr ysgol yn drwyadl ac yn cadarnhau gallu'r athrawon i lefelu gwaith y disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon yn dda er mwynolrhain cynnydd disgyblion. Mae athrawon yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i ddarparu tasgau priodol er mwyn symud y dysgu ymlaen i'r cam nesaf.

Mae adroddiadau ysgrifenedig i rieni ar gynnydd eu plant yn gynhwysfawr ac yn cydymffurfio'n llawn â'r gofynion.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol yn eu lle i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus trwy wahodd rhieni yn rheolaidd i ymuno mewn gwasanaethau boreol ac ymweld â chartefi'r henoed. Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo'n dda drwy amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a siop ffrwythau ddyddiol. Mae'r ysgol yn croesawu'r gymuned leol i ymuno â hi mewn digwyddiadau ar draws y flwyddyn sy'n cryfhau'r cyswllt a'r ymdeimlad o berthyn i gymuned.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o asiantaethau allanol, fel seicolegydd addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les a datblygiad carfan benodol o ddisgyblion. Mae'r swyddog lles yn mynychu nosweithiau rhieni ac yn manteisio ar y cyfle i siarad â rhieni a thanlinellu pwysigrwydd presenoldeb.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn briodol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae'r ysgol yn ymateb i ofynion statudol a'r cod

ymarfer trwy gadw cofrestr, darparu cynlluniau perthnasol a'u diweddaru yn rheolaidd. Maent yn cynnwys disgyblion a rhieni yn llwyddiannus yn y broses. Mae rhaglenni ymyrraeth sydd ar waith i gefnogi'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar gynnydd y disgyblion. Mae tîm effeithiol o gynorthwywyr dysgu yn cefnogi'r gwaith yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae Ysgol Gymraeg Castell-nedd yn gymuned gynhwysol sy'n annog y disgyblion i feithrin parch a gofal at oedolion ac at ei gilydd.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo cyfrifoldeb yn llwyddiannus, er enghraifft trwy waith y pwyllgor eco a chyngor ysgol. Mae mentrau fel y 'Bydis Bach a Mawr' yn datblygu'r agwedd o oddefgarwch at ddisgyblion iau'r ysgol yn effeithiol.

Caiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae cynrychiolaeth dda o ferched a bechgyn ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Er gwaethaf natur yr hen adeilad, mae gweithdrefnau'r ysgol yn hybu mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth ac mae gweithgareddau allgyrsiol yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu ysgogol i ddisgyblion ac maent yn llwyddo i ddefnyddio bron bob rhan o'r adeilad i'w llawn botensial. Mae arddangosfeydd yn ddeniadol ac yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol, ac yn amlygu'r ethos Cymreig cryf.

Mae maint yr ardal allanol yn gyfyng ar draws yr ysgol. Er hynny, mae staff yn gwneud y defnydd gorau ohono ac wedi sicrhau bod ystod o offer pwrpasol ar gael er mwyn datblygu medrau cymdeithasol a chorfforol y disgyblion, er enghraifft wal ddringo ac ardal dawel i fyfyrio. Fodd bynnag, prin yw'r adnoddau i gyfoethogi'r ddarpariaeth yn ardaloedd allanol y Cyfnod Sylfaen ac nid oes digon o ystod ac amrywiaeth i fodloni gofynion. Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac mae'r adeilad ar hyn o bryd yn ddigonol ar gyfer nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr. Ar y cyfan, mae'r gwaith o gynnal a chadw'r adeilad yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddatblygu pob disgybl fel unigolyn cyflawn - 'Ein nod yw rhoi cyfle i bob plentyn lwyddo'. Mae'n cyfleu'r weledigaeth honno i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae'n gosod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.

Mae strwythur rheoli'r ysgol yn dynn ac effeithiol, ac wedi ei sefydlu'n gadarn. Mae'r drefn o sicrhau bod pob aelod o'r uwch dîm rheoli yn arweinydd ar unedau penodol sy'n cydweithio'n agos gydag athrawon yn gryfder amlwg. Mae aelodau'r uwch dîm hefyd yn gyfrifol am fonitro ac arwain ar flaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Maent yn mentora athrawon newydd yn effeithiol iawn ac yn sicrhau cysondeb mewn darpariaeth drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur rhwng yr holl staff. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn rhannu cyfrifoldeb am gyfeiriad strategol

yr ysgol. Mae'r athrawon i gyd yn dadansoddi perfformiad yr ysgol yn fanwl ac yn ymateb i dangyflawniad trwy sicrhau cefnogaeth addas ar gyfer gwelliant. Mae'r timau'n cydweithio'n effeithiol iawn i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn bositif i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi ymsefydlu'n gadarn iawn yng nghynlluniau'r ysgol ac yn llywio'r dysgu'n llwyddiannus. Mae staff a disgyblion yn gweithredu'n gadarnhaol iawn i wireddu amcanion y siarter iaith, ac mae effaith hyn i'w gweld yn glir yn ethos Cymreig a safonau llafar y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer gweithredu'n effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion mwy bregus.

Mae gan y llywodraethwyr ddiddordeb byw a rhagweithiol ym mywyd a gwaith yr ysgol. Maent yn wybodus iawn am berfformiad yr ysgol dros amser ac o'i gymharu ag ysgolion eraill. Maent yn defnyddio data perfformiad a thystiolaeth gyfredol yn dda i herio ei gilydd ac arweinyddiaeth yr ysgol yn strategol. Maent yn monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol yn drylwyr ac yn defnyddio cyllid yn effeithiol i dargedu gwelliannau.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu yn rhan naturiol o fywyd bob dydd yr ysgol. Mae system monitro safonau a darpariaeth yr ysgol gyfan yn effeithiol. Mae'r uwch dîm rheoli yn defnyddio tystiolaeth eang o ddata ar gyflawniad disgyblion, adroddiadau craffu, arsylwi gwersi, a rhannu arfer i lunio'r adroddiad. Mae arfer yr athrawon o ffilmio'i gilydd yn addysgu yn eu galluogi i finiogi eu medrau addysgu ac adnabod meysydd i'w gwella. Mae ystyriaeth dda i farn llywodraethwyr, rhieni a disgyblion.

Mae ansawdd yr adroddiadau monitro yn gyson dda, ac yn rhoi sail gadarn i'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r adroddiad yn ddogfen gynhwysfawr ac yn arfarnol iawn. O ganlyniad, mae'r uwch dîm rheoli yn adnabod blaenoriaethau addas ar gyfer y cynllun gwella.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen weithredol a gaiff ei werthuso gan dimau o staff a llywodraethwyr yn gyson ar hyd y flwyddyn. Mae'r blaenoriaethau'n briodol i anghenion yr ysgol ac yn canolbwyntio'n gadarn ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r uwch dîm rheoli yn rhannu'r blaenoriaethau'n effeithiol gyda'r llywodraethwyr, rhieni, a disgyblion, ac maent yn weledol ar furiau'r ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gyda rhieni ac yn eu cynnwys yn dda yn addysg eu plant. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i rieni roi eu barn ar gynnydd ac anghenion gwella eu plant yn ddefnyddiol.

Mae'r trefniadau pontio sydd rhwng yr ysgol a dau gylch meithrin, a gyda'r ysgol uwchradd sy'n derbyn ei disgyblion, yn effeithiol. Mae'r trefniadau'n hwyluso trosglwyddo disgyblion o un sefydliad i'r llall. Mae'r cynllun trosglwyddo ffurfiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd yn arbennig o gryf, ac yn rhoi cyfleoedd buddiol i

ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, er enghraifft prosiectau cerddorol a gwersi rhifedd wythnosol. Mae gweithgareddau i sicrhau cyd-ddealltwriaeth ar lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae disgyblion yn cael eu paratoi'n drwyadl ar gyfer symud ymlaen i addysg uwchradd.

Mae cysylltiadau da rhwng yr ysgol ac ysgolion eraill yn y clwstwr lleol, sy'n cynnwys cyfleoedd gwerthfawr i rannu arfer dda. Mae athrawon yn cyfrannu i sesiynau hyfforddiant mewn ysgolion cyfagos er mwyn lledaenu eu dull llwyddiannus o wella llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o wasanaethau ac asiantaethau cymorth mewn perthynas â lles disgyblion. Mae'n gwneud defnydd da o wasanaeth y seicoleg addysg yn ogystal ag arbenigwyr eraill yr awdurdod lleol, gan gynnwys y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaeth iechyd a'r heddlu. Derbyniodd grŵp o ddisgyblion gymorth gwerthfawr gan wasanaeth cwnsela yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac, o ganlyniad, goroeswyd cyfnod anodd iawn yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn manteisio'n dda ar adnoddau'r gymuned a busnesau lleol ac yn croesawu ymwelwyr i gyfoethogi profiadau disgyblion a datblygu eu hymwybyddiaeth gymdeithasol ac ysbrydol, er enghraifft clerigwyr, y gwasanaeth tân a'r farchnad a'r archfarchnad leol. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o swyddogaeth y cymdeithas sydd o'u hamgylch.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ei gwahodd i ddatblygu partneriaethau gyda Llywodraeth Cymru yn y gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru, a chyda coleg prifysgol, trwy gyfrannu at fodiwl hyfforddiant i athrawon ar arweinyddiaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol nifer addas o staff cymwys i ddarparu'n effeithiol ar gyfer y disgyblion. Mae'r pennaeth wedi lleoli staff yn briodol a dosrannu cyfrifoldebau'n dda. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r cynorthwywyr, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at brofiadau disgyblion a darparu cefnogaeth gadarn i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad trylwyr sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chynorthwywyr. Mae amcanion pwrpasol a chlir yn targedu sylw da at ofynion ysgol gyfan, codi safonau disgyblion ac anghenion staff. Mae trefniadau ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bodloni gofynion statudol ac mae athrawon yn defnyddio'r amser yn effeithiol i roi ystyriaeth dda i gynnydd disgyblion.

Mae'r ysgol yn ei chyfanrwydd yn gweithredu'n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol o athrawon sy'n myfyrio ar addysgu a dysgu. Mae'r drefn o strwythuro'r ysgol yn unedau wedi creu triawdau o athrawon sy'n rhannu arfer â'i gilydd yn llwyddiannus. Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gyda nifer o ysgolion eraill. Mae athrawon wedi cyfrannu at gymunedau dysgu ehangach trwy roi arweiniad effeithiol ym maes llythrennedd a rhifedd i ysgolion lleol. Mae athrawon hefyd wedi cyfrannu enghreifftiau o addysgu rhagorol ar gyfer ffilmiau fideo hyfforddi. O ganlyniad, mae cysondeb amlwg yn nulliau dysgu athrawon ar draws yr ysgol, gan gynnwys yr athrawon hynny sydd newydd gymhwyso.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd penodol ac effeithiol o’r Grant aAmddifadedd dDisgyblion wrth sicrhau mynediad llawn i holl weithgareddau’r ysgol.  Mae disgyblion sy’n gymwys i brydau ysgol am ddim yn derbyn cefnogaeth ieithyddol a mathemategol sy’n cael effaith bositif ar eu cyrhaeddiad.

Mae’r pennaeth a’r is-bwyllgor cyllid yn monitro’r cyllid yn ofalus, ac wedi cryfhau’r sefyllfa ariannol eleni.  Mae blaenoriaethau’r cynllun gwella ysgol yn derbyn cyllid digonol i’w gweithredu’n effeithiol.  O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod a safon dda’r ddarpariaeth, mae’r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6712168 - YGG Castell-nedd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 362 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 47 | 32 | 47 | 56 |
| | | | | |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.0 | 81.3 | 89.4 | 98.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 1 |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| | | | | |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 47 | 32 | 47 | 56 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.6 | 87.5 | 91.5 | 98.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.9 | 46.9 | 51.1 | 55.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| | | | | |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 47 | 32 | 47 | 56 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.2 | 93.8 | 89.4 | 98.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 2 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 34.0 | 43.8 | 40.4 | 62.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| | | | | |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 47 | 32 | 47 | 56 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.6 | 100.0 | 100.0 | 98.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 | 3 |
| | | | | |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 70.2 | 71.9 | 61.7 | 71.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6712168 - YGG Castell-nedd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 362 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 11.1 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 46 | 37 | 35 | 28 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 93.5 | 94.6 | 85.7 | 89.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 46 | 37 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 97.8 | 97.3 | 94.3 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 37.8 | 37.1 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 46 | 37 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.5 | 94.6 | 94.3 | 89.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.3 | 21.6 | 34.3 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 46 | 37 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.7 | 94.6 | 85.7 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 52.2 | 24.3 | 48.6 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 46 | 37 | 35 | 28 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.5 | 97.3 | 94.3 | 92.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 43.5 | 29.7 | 42.9 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 96 | 95<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 96 | 92<br>96%<br>92% | 4<br>4%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 96 | 94<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 96 | 94<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 96 | 95<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 96 | 92<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 96 | 96<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 96 | 93<br>97%<br>98% | 3<br>3%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 92 | 87<br>95%<br>91% | 5<br>5%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 96 | 93<br>97%<br>95% | 3<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 94 | 78<br>83%<br>77% | 16<br>17%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 96 | 77<br>80%<br>84% | 19<br>20%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 67 | 51 | 15 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 76% | 22% | 1% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 67 | 55 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 67 | 57 | 9 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 85% | 13% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 66 | 54 | 11 | 0 | 1 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 82% | 17% | 0% | 2% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 65 | 43 | 22 | 0 | 0 | 1 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 66% | 34% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 64 | 52 | 12 | 0 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 67 | 54 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 63 | 45 | 16 | 2 | 0 | 4 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 71% | 25% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 65 | 44 | 20 | 0 | 1 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 68% | 31% | 0% | 2% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 65 | 44 | 18 | 3 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 68% | 28% | 5% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 66 | 47 | 18 | 1 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 27% | 2% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 49 | 32 | 16 | 0 | 1 | 17 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 65% | 33% | 0% | 2% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 67 | 43 | 21 | 2 | 1 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 64% | 31% | 3% | 1% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 65 | 47<br>72% | 17<br>26% | 1<br>2% | 0<br>0% | 1 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 59 | 38<br>64% | 19<br>32% | 2<br>3% | 0<br>0% | 8 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 61 | 40<br>66% | 20<br>33% | 1<br>2% | 0<br>0% | 5 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 47 | 28<br>60% | 18<br>38% | 0<br>0% | 1<br>2% | 20 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 60 | 39<br>65% | 20<br>33% | 1<br>2% | 0<br>0% | 7 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 65 | 50<br>77% | 14<br>22% | 1<br>2% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Terwyn Tomos | Arolygydd Tîm |
| Gwen Lloyd Aubrey | Arolygydd Lleyg |
| Margaret Owenna Davies | Arolygydd Cymheiriaid |
| Anita Tucknutt | Arolygydd Cymheiriaid |
| Tudur Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.